# Cwestiynau Ysgrifenedig a atebwyd rhwng 12 a 19 Ionawr 2006

[R] yn nodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.
[W] yn nodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.

**Cynnwys**

Cwestiynau i'r Prif Weinidog

Cwestiynau i'r Gweinidog dros Ddiwylliant, y Gymraeg a Chwaraeon

Cwestiynau i'r Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd a Thrafnidiaeth

Cwestiynau i'r Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes

Cwestiynau i'r Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad

Cwestiynau i'r Gweinidog Cyllid

Cwestiynau i'r Trefnydd

## Cwestiynau i'r Prif Weinidog

**Nick Bourne:** A wnaiff Prif Weinidog Cymru gyhoeddi'r ohebiaeth â Whitehall yn ymwneud â chau swyddfeydd yr Asiantaeth Budd-daliadau yng Nghymru? (WAQ40961)

*Ateb terfynol yn dilyn yr ateb dros dro a roddwyd ar 21 Ionawr 2005.*

**Y Prif Weinidog (Rhodri Morgan):** Er nad ydym, hyd yma, wedi dechrau gohebu gyda Whitehall am y mater hwn, cyfarfu fy nghyd-aelodau ar y Cabinet, y Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes a'r Gweinidog Cyllid, â Chyfarwyddwr Canolfan Byd Gwaith Cymru fis Tachwedd y llynedd a chawsant sicrwydd fod Canolfan Byd Gwaith yn bwriadu cynnal lefel ei gwasanaethau i'w chwsmeriaid yng Nghymru.

**Nick Bourne:** A wnaiff Prif Weinidog Cymru gyhoeddi dogfennau yn ymwneud â ffurfio clymblaid Llywodraeth Cynulliad Cymru ym mis Hydref 2000? (WAQ40971)

**Nick Bourne:** A wnaiff Prif Weinidog Cymru gyhoeddi'r ohebiaeth gan Aelodau Seneddol Llafur yn ymwneud â diswyddo Jane Hutt, y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ym mis Ionawr 2005? (WAQ40980)

*Ateb terfynol yn dilyn yr ateb dros dro a roddwyd ar 21 Ionawr 2005.*

**Y Prif Weinidog:** Mae fy swyddogion wedi chwilio am wybodaeth sy'n cyfateb i'r disgrifiad o'r hyn a geisir yn y naill gwestiwn a'r llall, ac nid ydynt wedi canfod gwybodaeth o'r fath. Ni allaf, felly, ddarparu unrhyw wybodaeth bellach mewn ymateb i'r cwestiynau hyn.

## Cwestiynau i'r Gweinidog dros Ddiwylliant, y Gymraeg a Chwaraeon

**Owen John Thomas:** Yn dilyn ei ateb i (WAQ40781), (WAQ40782) a (WAQ40783) a wnaiff y Gweinidog gyhoeddi'r wybodaeth y gofynnwyd amdani yn y cwestiynau gwreiddiol neu os na wnaiff, a wnaiff esbonio pam? (WAQ41232)

**Y Gweinidog dros Ddiwylliant, y Gymraeg a Chwaraeon (Alun Pugh):** Fel yr eglurais yn fy ateb i'r Cwestiwn Ysgrifenedig a gyflwynwyd gennych ar 17 Ionawr, mae'r Comisiynydd Penodiadau Cyhoeddus wedi cynnal ymchwiliad llawn a manwl i'r broses benodi hon. Canfu'r comisiynydd nad oedd Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi torri'r cod ac nad oedd sail i'r cwynion a wnaethpwyd am y broses. Nododd y comisiynydd rai gwendidau gweinyddol ac mae camau wedi cael eu cymryd eisoes i fynd i'r afael â'r rhain.

Yn ychwanegol at hynny, fodd bynnag, canfu'r comisiynydd fod ei chod wedi cael ei thorri'n sylfaenol pan ddatgelwyd gwybodaeth gyfrinachol am ymgeiswyr unigol i'r wasg. Mae hynny yn annheg eithriadol ag ymgeiswyr.

Nodaf nad oedd eich Cwestiynau Ysgrifenedig gwreiddiol yn gofyn am i'r wybodaeth gael ei chyhoeddi ond gallaf gadarnhau fod yr holl gofnodion ysgrifenedig perthnasol yn ymwneud â'r broses gyfweld wedi cael eu cadw.

Cofnododd aelodau'r panel sylwadau ar y dalennau matrics cyfweld ac ar ffurflenni cais yn ystod y cyfweliadau. Arddywedais innau nodyn yn crynhoi fy marn i ysgrifennydd y panel yn union ar ôl y cyfweliadau. Cafodd aelodau'r panel ddogfennau am y broses gyfweld, yn cynnwys yr angen i lenwi'r dalennau matrics cyfweld, cyn y cyfweliadau. Mae canllawiau pellach wedi cael eu darparu ers hynny yn nodi cyfrifoldebau aelodau'r panel yn y cyswllt hwn.

**Nick Bourne:** A wnaiff y Gweinidog roi manylion amcangyfrif y gost, gan gynnwys cost ail-frandio ac amser y gwasanaeth sifil, o ddod â Bwrdd yr Iaith Gymraeg dan adain Llywodraeth y Cynulliad? (WAQ45032)

*Ateb terfynol yn dilyn yr ateb dros dro.*

**Alun Pugh:** Mae'r paratoadau ar gyfer dod â Bwrdd yr Iaith Gymraeg dan adain Llywodraeth y Cynulliad yn cael eu gwneud o fewn yr adnoddau presennol gan mwyaf.

**Nick Bourne:** Faint o swyddi sy’n debygol o gael eu colli ym Mwrdd yr Iaith Gymraeg yn sgîl ei ddwyn dan adain Llywodraeth Cynulliad Cymru? (WAQ45033)

*Ateb terfynol yn dilyn yr ateb dros dro.*

**Alun Pugh:** Fe’i gwnaethpwyd yn glir yn natganiad y Prif Weinidog ar 7 Mehefin 2005 nad oedd unrhyw golledion swyddi gorfodol yn cael eu rhagweld o ganlyniad i’r uno. Nid ymarferiad wedi ei seilio ar doriadau mo’r rhaglen uno. Y flaenoriaeth yw gwella’r ffordd o gyflenwi gwasanaethau i’r cyhoedd.

Gan na fydd Bwrdd yr Iaith Gymraeg yn uno â Llywodraeth Cynulliad Cymru tan 1 Ebrill 2007, ni phenderfynwyd eto ar y strwythurau manwl.

Fodd bynnag, mae Bwrdd yr Iaith Gymraeg yn cael ei gynrychioli ar y cyd fforwm negodi, sydd wedi cytuno gyda’r undebau llafur ar brotocol lleoli sy’n nodi sut y bydd staff yn cael eu paru â swyddi yn y strwythurau adrannol newydd maes o law.

## Cwestiynau i’r Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd a Thrafnidiaeth

**Alun Cairns:** Yn unol â'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth a'r Canllawiau ar Gwestiynau'r Cynulliad, a wnaiff y Gweinidog gyhoeddi'r holl ddeunydd cyfathrebu, copïau o lythyrau, cofnodion o alwadau ffôn sy'n ymwneud ag unrhyw gyfathrebu a fu rhwng ei swyddfa ef a'r Swyddfa Ystadegau Gwladol mewn perthynas â'r data diweddar ar werth ychwanegol crynswth (GVA) ar gyfer y Gorllewin a'r Cymoedd? (WAQ41160)

*Ateb terfynol yn dilyn yr ateb dros dro a roddwyd ar 31 Ionawr 2005.*

**Y Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd a Thrafnidiaeth (Andrew Davies):** Gallaf eich hysbysu nad wyf fi na’m swyddfa breifat wedi cyfathrebu â’r Swyddfa Ystadegau Gwladol am ddata GVA diweddar ar gyfer y Gorllewin a’r Cymoedd.

**Alun Cairns:** A wnaiff y Gweinidog gyhoeddi'r holl wybodaeth gan gynnwys llythyrau, memos ac e-bost mewnol yn y WDA a Llywodraeth Cynulliad Cymru, yn ogystal â rhwng y cyfryw sefydliadau, sy'n ymwneud â'r amcangyfrifon a'r amcanestyniadau o'r gost o uno’r WDA gyda Llywodraeth Cynulliad Cymru: (WAQ41845)

*Ateb terfynol yn dilyn yr ateb dros dro.*

**Andrew Davies:** Gofynasoch am wybodaeth am gyhoeddi costau amcangyfrifedig uno’r WDA gyda Llywodraeth Cynulliad Cymru yn cynnwys llythyrau, memos a negeseuon e-bost yn fewnol, yn y WDA a Llywodraeth Cynulliad Cymru, yn ogystal â rhwng y cyfryw sefydliadau.

Gofynnodd y Western Mail hefyd am wybodaeth am y gost o uno CCNCau gyda Llywodraeth Cynulliad Cymru

ac mae'r deunydd, sy'n cynnwys gwybodaeth am gostau uno'r WDA, wedi cael ei gyhoeddi ar wefan Llywodraeth Cynulliad Cymru. Mae'r wybodaeth i'w gweld ar www.gwybodaeth.cymru.gov.uk (cyfeirnod 86). Pe bai'n well gennych gael copi papur, cysylltwch â thîm y rhaglen newid ar 02920 821781.

Yr wyf wedi rhoi gwybod i Gareth Hall, prif weinidog y WDA, am eich cais ac yr wyf yn anfon copi o'r llythyr hwn ato.

**Lisa Francis:** A yw'r Gweinidog yn gallu rhoi dadansoddiad o'r strwythur newydd arfaethedig ar gyfer adran 'datblygu economaidd' Llywodraeth y Cynulliad ar ôl Ebrill 2006, gan gynnwys rolau a chyfrifoldebau/ manylebau swydd y swyddi uchaf? (WAQ44963)

*Ateb terfynol yn dilyn yr ateb dros dro a roddwyd ar 2 Rhagfyr 2005.*

**Andrew Davies:** Yr wyf yn atodi diagram strwythur ar gyfer yr Adran Datblygu Economaidd a Thrafnidiaeth newydd. Mae manylion yr uwch swyddi i'w gweld ar:

http://www.wales.gov.uk/themesmergers/content/structure/edt-senior-posts-e.pdf

**Nick Bourne:** Faint o swyddi sy'n debygol o gael eu colli yn Awdurdod Datblygu Cymru yn sgîl ei ddwyn dan adain Llywodraeth Cynulliad Cymru? (WAQ45029)

**Nick Bourne:** Faint o swyddi sy'n debygol o gael eu colli ym Mwrdd Croeso Cymru yn sgîl ei ddwyn dan adain Llywodraeth Cynulliad Cymru? (WAQ45031)

*Ateb terfynol yn dilyn yr ateb dros dro a roddwyd ar 6 Rhagfyr 2005.*

**Andrew Davies:** Fe'i gwnaethpwyd yn glir yn natganiad y Prif Weinidog ar 7 Mehefin 2005 nad oedd unrhyw golledion swyddi gorfodol yn cael eu rhagweld adeg yr uno. Nid ymarferiad wedi ei seilio ar doriadau mo'r rhaglen uno.

Serch hynny, mae'r uno yn rhoi cyfle inni i gael gwared â dyblygu ymdrechion. Erbyn 2008-09, gosodwyd targed i'r adran datblygu economaidd a thrafnidiaeth newydd i ostwng ei chostau rheoli oddeutu £5 miliwn. Wrth i ddyddiad uno DETh agosáu mae moratoriwm recriwtio wedi cael ei weithredu i ddal swyddi gweigion yn ôl fel y bydd modd neilltuo pobl nad oes swydd addas wedi cael ei chanfod iddynt ar unwaith i'r swyddi gweigion hyn, lle mae hynny'n bosibl.

O fis Ebrill nesaf, bydd nifer y bobl yn yr adran DETh newydd oddeutu 1,650, yn cynnwys swyddogion ar secondiad—yr un nifer yn fras ag ar hyn o bryd.

**Alun Cairns:** Yn dilyn WAQ44928, a wnaiff y Gweinidog roi manylion llawn y costau fesul cam, gan gynnwys manylion yr ymgyrch hysbysebu unigol? (WAQ45213)

*Ateb terfynol yn dilyn yr ateb dros dro a roddwyd ar 20 Rhagfyr 2005.*

**Andrew Davies:** Rhoddir y wybodaeth a geisir isod.

**Cam 1: Gorffennaf – Awst 2002**

Codi ymwybyddiaeth

| Cyfrwng | Nifer | Amlder | Hyd | Cost £000 |
|---|---|---|---|---|
| Y wasg | 35 cyhoeddiad | 2 yr wythnos (Cymraeg / Saesneg) | 5 wythnos | 188 |
| Radio | 9 gorsaf | 4 cyfle i glywed | 6 wythnos | 53 |
| Posteri 48-dalen | 155 | | 6 wythnos | 38 |
| Posteri mawr cefn bws | 21 | | 16 / 52 wythnos | 122 |

**Cam 2: Medi – Rhagfyr 2002**

Codi ymwybyddiaeth

| Cyfrwng | Nifer | Amlder | Hyd | Cost £000 |
|---|---|---|---|---|
| Y wasg | 27 cyhoeddiad | 2 yr wythnos (Cymraeg / Saesneg) | 9 wythnos | 389 |
| Radio | 10 gorsaf | 4 cyfle i glywed | 9 wythnos | 70 |
| Posteri 48-dalen | 113 | | 4 wythnos | 29 |
| Posteri 6-dalen | 371 | | 2 wythnos | 58 |
| Hysbyseb ochr bws | 466 | | 8 wythnos | 89 |

**Cam 3: Ionawr – Ebrill 2003**

Galw am weithredu

| Cyfrwng | Nifer | Amlder | Hyd | Cost £000 |
|---|---|---|---|---|
| Y wasg | 23 cyhoeddiad | 2 yr wythnos (Cymraeg / Saesneg) | 10 wythnos | 241 |
| Radio | 12 gorsaf | 4 cyfle i glywed | 10 wythnos | 81 |
| Bws | 562 | | 16 wythnos | 98 |
| Posteri 48-dalen | 112 | | 6 wythnos | 46 |
| Posteri 6-dalen | 371 | | 7 wythnos | 137 |
| Ciosgau ffôn ac amgylchol | 400 | | 6 wythnos | 68 |

**Cam 4: Tachwedd 2003 – Mawrth 2004**

Pobl 25 i 35 oed, dynion a menywod

| Cyfrwng | Nifer | Amlder | Hyd | Cost £000 |
|---|---|---|---|---|
| Y wasg | 7 cyhoeddiad | 2 yr wythnos (Cymraeg / Saesneg) | 16 wythnos | 132 |
| Radio | 12 gorsaf | 4 cyfle i glywed | 15 wythnos | 154 |
| Posteri 48-dalen | 110 | | 10 wythnos | 117 |
| Posteri 6-dalen | 287 | | 6 wythnos | 148 |
| Ciosgau ffôn | 400 | | 4 wythnos | 52 |
| Bysiau | 44 | | 6 wythnos | 5 |
| Darparu gwasanaeth dosbarthu uniongyrchol | | | | 294 |

**Cam 5: Mai – Hydref 2004**

Menywod, 35-55

| Cyfrwng | Nifer | Amlder | Hyd | Cost £000 |
|---|---|---|---|---|
| Radio | 13 gorsaf | 4 cyfle i glywed | 16 wythnos | 114 |
| Posteri 48-dalen | 110 | | 10 wythnos | 129 |
| Posteri 6-dalen | 287 | | 12 wythnos | 277 |
| Darparu gwasanaeth dosbarthu uniongyrchol | | | | 202 |

**Cam 6: Mai – Gorffennaf 2005**

Dynion, 35 i 55

| Cyfrwng | Nifer | Amlder | Hyd | Cost £000 |
|---|---|---|---|---|
| Radio | 13 gorsaf | 4 cyfle i glywed | 6 wythnos | 50 |
| Posteri 48-dalen | 112 | | 12 wythnos | 136 |
| Posteri 6-dalen | 298 | | 6 wythnos | 145 |
| Darparu gwasanaeth dosbarthu uniongyrchol | | | | 149 |

**Cam 7: Medi – Rhagfyr 2005**

Myfyrwyr, Addysg Bellach ac Uwch

| Cyfrwng | Nifer | Amlder | Hyd | Cost £000 |
|---|---|---|---|---|
| Ciosgau ffôn | 24 | | 4 wythnos | 4 |
| Posteri 6-dalen | 28 | | 4 wythnos | 11 |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Marchnata uniongyrchol, yn cynnwys post uniongyrchol ac amryw o sianelau ar y campws – posteri, cardiau post ac ati | | | | 127 |

## Cwestiynau i’r Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes

**Nick Bourne:** A wnaiff y Gweinidog gyhoeddi dogfennau yn ymwneud â chost a goblygiadau staffio darparu brecwast am ddim mewn ysgolion i blant cynradd? (WAQ40965)

*Ateb terfynol yn dilyn yr ateb dros dro a roddwyd ar 21 Ionawr 2005.*

**Y Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes (Jane Davidson):** Erbyn hyn gallaf gadarnhau bod y wybodaeth y gofynasoch amdani eisoes wedi cael ei chyhoeddi. Mae modd cyrchu at y cyfrifiadau ariannol a wnaethpwyd hyd yma drwy wefan y Cynulliad ar http://www.informatiom.wales.gov.uk/content/decisionreports/information/information-e.asp.

Mae’r holl gostiadau yr ydym yn eu defnyddio ar hyn o bryd ar gyfer y peilot ar gael hefyd ar wefan y Cynulliad drwy http://www.learning.wales.gov.uk/breakfast/guidance-e.htm.

## Cwestiynau i’r Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad

**Nick Bourne:** A wnaiff y Gweinidog gyhoeddi dogfennau yn ymwneud â bygythiad llifogydd mewn cymunedau yng Nghymru? (WAQ40983)

*Ateb terfynol yn dilyn yr ateb dros dro.*

**Y Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad (Carwyn Jones):** Cyfeiriaf at yr uchod a chynigiaf y canlynol.

Fe’ch cyfeiriaf at nodyn cyngor technegol 15.

**Rhodri Glyn Thomas:** Pa drafodaethau a fu rhwng y Gweinidog a Cadw a Chyngor Cefn Gwlad Cymru ynghylch llwybr arfaethedig y biblinell nwy hylifol o Aberdaugleddau drwy ddyffryn Tywi? (WAQ45092)

*Ateb terfynol yn dilyn yr ateb dros dro a roddwyd ar 21 Ionawr 2005.*

**Carwyn Jones:** Mae trafodaethau helaeth wedi cael eu cynnal rhwng swyddogion Llywodraeth y Cynulliad,

awdurdodau’r parciau cenedlaethol, yr Adran Masnach a Diwydiant, Cyngor Cefn Gwlad Cymru a Cadw. Dewiswyd y llwybr arfaethedig drwy ddyffryn Tywi er mwyn sicrhau cyn lleied â phosibl o effaith amgylcheddol a tharfu. Mae cyhoeddiad Transco yn lansio ymgynghoriad eang ynglyn â’r llwybr sy’n cael ei ffafrio.

**Glyn Davies:** Pa brofion y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn eu cynnal ynglyn ag effeithiolrwydd brechiadau modern yn erbyn ffliw adar? (WAQ45192)

*Ateb terfynol yn dilyn yr ateb dros dro.*

**Carwyn Jones:** Nid yw Llywodraeth Cynulliad Cymru yn cynnal profion ei hun i effeithiolrwydd brechlynnau modern yn erbyn ffliw adar. Mewn llawer o feysydd yn ymwneud ag ymchwil i iechyd anifeiliaid mae’r gwaith yn cael ei gomisiynu gan Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig yn gweithredu ar ran Llywodraeth Cynulliad Cymru. Mae cynhyrchu brechlynnau yn faes sy’n cael ei adolygu’n barhaus.

**Glyn Davies:** Pa gynlluniau sydd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru i frechu dofednod, adar gwyllt domestig ac adar prin eraill yn erbyn Ffliw Adar? (WAQ45193)

*Ateb terfynol yn dilyn yr ateb dros dro.*

**Carwyn Jones:** Nid oes gan Lywodraeth Cynulliad Cymru, fel rhan o’r DU, gynlluniau i gynnwys brechu proffylactig neu frys ar ddofednod fel rhan o’i mesurau i reoli ffliw adar. Ni chaiff hyn ei ddefnyddio yn bennaf oherwydd anawsterau gweinyddu ymarferol a chan nad oes unrhyw frechlynnau ffliw adar â chaniatâd marchnata i gael eu defnyddio yn y DU. Pe câi brechu ei ddefnyddio, ar ôl i achosion o’r haint ymddangos y byddai hynny a dofednod a fyddai’n cael lles o’r brechlyn fyddai’n cael eu brechu.

Byddid yn ystyried brechu proffylactig ar adar prin hynod o werthfawr mewn swau.

## Cwestiynau i’r Gweinidog Cyllid

**Nick Bourne:** A wnaiff y Gweinidog gyhoeddi'r ohebiaeth rhwng Llywodraeth Cynulliad Cymru a chyn arweinydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr, Jeff Jones, ynghylch cyllid llywodraeth leol a lefelau'r dreth gyngor? (WAQ40992)

*Ateb terfynol yn dilyn yr ateb dros dro a roddwyd ar 21 Ionawr 2005.*

**Y Gweinidog Cyllid (Sue Essex):** Nid wyf wedi canfod unrhyw wybodaeth sy’n cyfateb i’r disgrifiad hwn.

**Nick Bourne:** A yw'r Gweinidog wedi derbyn unrhyw ohebiaeth ynglyn â'r cynnydd mewn ardrethi busnes yng Nghymru, ac os felly, a fydd yn cyhoeddi'r ohebiaeth honno? (WAQ42657)

*Ateb terfynol yn dilyn yr ateb dros dro a roddwyd ar 10 Mai 2005.*

**Sue Essex:** Yr wyf wedi derbyn amryw o ddarnau o ohebiaeth oddi wrth aelodau o'r cyhoedd a busnesau ynglyn â'r cynnydd mewn ardrethi busnes. Y cyrff hynny sydd wedi cysylltu â mi yw Consortiwm Manwerthu Prydain, Grwp Boots ccc, Cyngor Sir Ceredigion, Ffederasiwn y Cyflogwyr Peirianyddol a'r Ffederasiwn Busnesau Bach. Mae'r cyrff hyn yn fodlon i'w gohebiaeth gael ei darparu yn Llyfrgell Aelodau'r Cynulliad Cenedlaethol.

**Jonathan Morgan:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y setliad llywodraeth leol ar gyfer Cyngor Caerdydd? (WAQ45006)

*Ateb terfynol yn dilyn yr ateb dros dro a roddwyd ar 6 Rhagfyr 2005.*

**Sue Essex:** Fel y cyhoeddais yn y setliad dros dro ar 1 Tachwedd 2005, bydd Cyngor Sir Caerdydd yn cael £331.5 miliwn o grant cynnal refeniw sy'n cyfateb i £1,046 y pen o boblogaeth Caerdydd. Bydd yr awdurdod hefyd yn cael nifer o grantiau gan Lywodraeth Cynulliad Cymru i ariannu gweithgareddau penodol. Yn 2005-06 yr oedd y symiau hyn yn fwy na £65 miliwn ynghyd â chyllid ychwanegol o £1.5 miliwn o grant amddifadedd, £3 miliwn o grant cymell perfformiad a £3 miliwn o dan gynllun awdurdodau lleol i gymell twf busnesau.

**Peter Black:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am gyflawni arbedion effeithlonrwydd mewn llywodraeth leol? (WAQ45007)

*Ateb terfynol yn dilyn yr ateb dros dro a roddwyd ar 6 Rhagfyr 2005.*

**Sue Essex:** Megis gyda phob corff cyhoeddus mawr yr ydym yn ei gyllido, yr ydym wedi gosod targed i'r awdurdodau lleol i sicrhau arbedion effeithlonrwydd o 1 y cant (o'r holl gyllid a gânt gan y Cynulliad) o flwyddyn i flwyddyn am y pum mlynedd nesaf.

Mae setliad y grant cynnal refeniw yn rhagdybio y bydd arbedion effeithlonrwydd yn cael eu gwneud gan yr awdurdodau lleol. O dan raglen ddiwygiedig Cymru ar gyfer gwella bydd yr awdurdodau yn adrodd ac yn gwneud sylwadau yn eu cynlluniau gwella blynyddol am y cynnydd y maent wedi ei wneud o ran sicrhau arbedion effeithlonrwydd, byddant yn cyhoeddi'r cynllun ac yn cael archwilwyr annibynnol i fwrw golwg drosto. Bydd cynlluniau o dan y trefniadau newydd hyn yn cael eu cyhoeddi am y tro cyntaf yn 2006.

Mae'n rhy gynnar i ddweud yn fanwl pa gynnydd tuag at arbedion effeithlonrwydd y mae'r awdurdodau lleol wedi ei wneud. Mae yna serch hynny enghreifftiau o gynnydd da yn cael ei wneud mewn meysydd megis caffael. Ar ben hynny, mae Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru wrthi'n ddiwyd yn ymchwilio i gyflenwi gwasanaethau drwy gydweithio ac mae, yn ddiweddar, wedi nodi gwasanaethau cymorth swyddfeydd cefn,

rheoli gwastraff a gwella adeiladau ysgolion fel atebion rhanbarthol y rhoddir blaenoriaeth iddynt yn y sector.

**William Graham:** Pa asesiad y mae'r Gweinidog wedi'i wneud ynghylch yr arbedion effeithlonrwydd posibl ym maes gwasanaethau cyhoeddus o gronni gwasanaethau gweinyddu Cynghorau? (WAQ45016)

*Ateb terfynol yn dilyn yr ateb dros dro a roddwyd ar 6 Rhagfyr 2005.*

**Sue Essex:** Yr ydym wedi dweud cyn hyn ein bod yn credu bod potensial sylweddol, drwy rannu gwasanaethau, i sicrhau mwy o effeithlonrwydd yn y ffordd y caiff swyddogaethau cymorth eu darparu ar draws y gwasanaethau cyhoeddus, yn cynnwys llywodraeth leol. Rhan o gylch gwaith Gwerth Cymru, a sefydlwyd gan Lywodraeth y Cynulliad yn ddiweddar, yw helpu i ddatblygu gwasanaethau sy'n cael eu rhannu.

Mae CLlLC wrthi'n ddiwyd yn ymchwilio i gyflenwi gwasanaethau drwy gydweithio. Yn ddiweddar, mae wedi nodi gwasanaethau cymorth swyddfeydd cefn, rheoli gwastraff a gwella adeiladau ysgolion fel atebion rhanbarthol y rhoddir blaenoriaeth iddynt yn y sector, ond mae'n rhy gynnar i fod yn fanwl am unrhyw arbedion tebygol a allai ddeillio o waith o'r fath gan y bydd hynny yn dibynnu ar gynigion prosiect penodol.

**Jonathan Morgan:** Gyda golwg ar wariant Llywodraeth Cynulliad Cymru ar hysbysebu, a wnaiff y Gweinidog roi manylion costau a) hysbysebion teledu, b) hysbysebion radio, c) hysbysebion mewn papurau newydd a d) pob cyfrwng arall? (WAQ45111)

**Jonathan Morgan:** Beth fu cyfanswm gwariant Llywodraeth Cynulliad Cymru ar hysbysebu ym mhob cyfrwng ac a wnaiff y Gweinidog roi manylion y costau hyn dros y 6 blynedd diwethaf? (WAQ45112)

**Jonathan Morgan:** Beth mae'r Gweinidog yn ei wneud i sicrhau bod hysbysebu yn y cyfryngau gan Lywodraeth Cynulliad Cymru'n gost-effeithiol i drethdalwyr Cymru? (WAQ45113)

*Ateb terfynol yn dilyn yr ateb dros dro.*

**Sue Essex:** Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn defnyddio hysbysebion yn y cyfryngau pan fydd hynny'n briodol i roi gwybod i'r cyhoedd am gynlluniau neu am eu hawliau ac i roi negeseuon gwybodaeth i'r cyhoedd.

Mae pob ymgyrch yn dynodi pa gynulleidfa y mae angen ei thargedu a chaiff hysbysebion yn y cyfryngau eu prynu yn unol â gweithdrefnau caffael Llywodraeth Cynulliad Cymru. Mae'r rhain wedi'u seilio ar gystadleuaeth deg ac agored er mwyn sicrhau y ceir y gwerth gorau am arian wrth gyflawni amcanion busnes.

Cynhelir ymchwil a gwaith gwerthuso i asesu effeithiolrwydd elfennau hysbysebu yn y cyfryngau ein hymgyrchoedd. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn gallu elwa o rym swmp-brynu cyfryngau y Swyddfa Hysbysrwydd Ganolog pan fydd yn prynu gofod hysbysebu ar deledu, radio ac yn y wasg.

Gofynasoch am ddadansoddiad o'r costau hysbysebu o safbwynt teledu, radio, papurau newydd a phob cyfrwng

arall, ac am gyfanswm y gwariant dros y chwe blynedd diwethaf. Mae'r wybodaeth hon i'w gweld yn y tabl isod:

| **Dosbarth** | **1999-2000** | **2000-01** | **2001-02** | **2002-03** | **2003-04** | **2004-05** |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Hysbyseb – Amgylchol | | | | | | £66,926.43 |
| Hysbyseb – Bws | | | | | | £89,228.83 |
| Hysbyseb – Papurau newydd | £13,534* | £16,608* | £469,795* | £2,120,690* | £2,303,681* | £2,098,305 |
| Hysbyseb – Hysbysiadau Cyhoeddus | | | | | | £4,317.98 |
| Hysbyseb – Teledu | £250,249.12 | £81,740.13 | £568,614.58 | £396,782.37 | £367,410.33 | £467,295.29 |
| Hysbyseb – Radio | | £17,866.21 | £111,261.63 | £114,498.02 | £85,379.96 | £137,064.64 |
| Hysbysebion Ymgyrchoedd | | | | £572,743.71 | £381,099.77 | |
| **CYFANSWM** | **£250,249.12** | **£99,606.34** | **£679,876.21** | **£1,084,024.10** | **£1,173,942.49** | **£1,230,251.56** |

*Mae'r ffigurau hyn yn cynnwys gwariant ar hysbysebion recriwtio, penodiadau cyhoeddus a hysbysiadau cyhoeddus statudol.

Er 2004-05 yr ydym wedi bod yn dosbarthu gwariant ar hysbysebu fel y nodwyd yn y tabl uchod. Yn y blynyddoedd cyn hynny yr oedd gwariant o'r fath yn cael ei grwpio ynghyd a chyfrifwyd amdano o dan 'hysbysebion ymgyrchoedd'.

1999-2000: Hysbysebion yn cynnwys gwybodaeth am ddatganoli yng Nghymru.

2000-01: Hysbysebion yn cynnwys diogelwch ar y ffyrdd, materion amgylcheddol a materion iechyd (yn cynnwys y llinell gymorth rhoi'r gorau i ysmygu).

2001-02: Hysbysebion yn cynnwys diogelwch ar y ffyrdd, teithio am ddim ar fysiau i bobl dros 60 oed a hysbysebion gwrth-ysmygu.

2002-03: Hysbysebion yn cynnwys diogelwch ar y ffyrdd, hysbysebion gwrth-ysmygu a hysbysebu digwyddiadau Llywodraeth Cynulliad Cymru mewn papurau newydd lleol.

2003-04: Hysbysebion yn cynnwys nofio am ddim, hysbysebion gwrth-ysmygu, rhoi gwaed, atal yfed a gyrru, a hysbysebu digwyddiadau Llywodraeth Cynulliad Cymru mewn papurau newydd lleol/ar orsafoedd radio lleol.

2004-05: Hysbysebion yn cynnwys nofio am ddim, hysbysebion gwrth-ysmygu, rhoi gwaed, atal yfed a gyrru a deddfau newydd yn ymwneud â defnyddio ffonau symudol wrth yrru.

Mae’r ffigurau hyn yn cynnwys gwariant ar hysbysebion a gaffaelwyd gan yr Is-adran Gyfathrebu ganolog; dim ond am gost afresymol y gellid darparu gwybodaeth am hysbysebion eraill.

**Jenny Randerson:** Sut mae’r arian i gwrdd â chostau trwyddedu tai amlbreswyliaeth wedi ei ddosbarthu rhwng awdurdodau lleol? (WAQ45159)

**Jenny Randerson:** A yw arian i gwrdd â chostau trwyddedu tai amlbreswyliaeth wedi ei gynnwys yn y setliad drafft ar gyfer awdurdodau lleol? (WAQ45160)

*Ateb terfynol yn dilyn yr ateb dros dro.*

**Sue Essex:** Mae’r arian i’r awdurdodau lleol gogyfer â chostau sefydlu’r drefn i drwyddedu tai amlbreswyliaeth a’r system graddio iechyd a diogelwch wedi cael ei gynnwys yn y setliad refeniw ar gyfer 2006-07 a chafodd ei ddosbarthu yn unol â fformiwla’r asesiad o wariant safonol. I symiau oddeutu £1 miliwn mae mecanwaith yr asesiad o wariant safonol yn cael ei ystyried yn briodol. Dyma’r drefn a fabwysiadwyd yng nghyswllt amryw o ofynion gwariant canlyniadol yn y gorffennol. Mae’r trefniadau newydd ar gyfer y systemau trwyddedu a graddio iechyd a diogelwch wedi eu nodi yn Neddf Tai 2004 ac, yn amodol ar gymeradwyaeth y Cynulliad, dylent gael eu cyflwyno yn haf 2006. Bydd yr adnoddau ar gael o fis Ebrill 2006 a byddant yn galluogi’r awdurdodau lleol i sicrhau eu bod wedi paratoi’n dda ar gyfer y trefniadau newydd.

## Cwestiynau i’r Trefnydd

**Nick Bourne:** A wnaiff y Gweinidog gyhoeddi dogfennau'n ymwneud â'r ddadl y penderfynwyd peidio â'i chynnal ar drefniant y seddi yn siambr y Cynulliad? (WAQ40964)

*Ateb terfynol yn dilyn yr ateb dros dro.*

**Y Trefnydd (Jane Hutt):** Gallaf gadarnhau nad oes gan Lywodraeth Cynulliad Cymru unrhyw ddogfennau yn ymwneud â’r uchod.

**David Davies:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am faint o arian y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi ei wario ar hysbysebion gyda grwp Trinity Mirror (y Western Mail, South Wales Echo a Wales on Sunday yn

bennaf) dros y pum mlynedd diwethaf, y mae ffigurau ar gael ar eu cyfer? (WAQ45211)

*Ateb terfynol yn dilyn yr ateb dros dro.*

**Jane Hutt:** Mae'r wybodaeth a geisiwch fel a ganlyn ac mae'n cynnwys hysbysebion recriwtio:

| | |
|---|---|
| Ebrill 2003 – Mawrth 2004 | £1,421,518 (£925,616)* |
| Ebrill 2004 – Mawrth 2005 | £1,287,908 (£795,292)* |
| Ebrill 2005 – hyd yma | £801,057 (£574,794)* |

*Mae'r ffigurau mewn cromfachau yn cyfeirio at hysbysebion yn nheitlau'r Western Mail sy'n cynnwys y *Western Mail, South Wales Echo, Wales on Sunday* a theitlau wythnosol megis y *Glamorgan Gazette*.

Dim ond am gost afresymol y gellid darparu ffigurau am y blynyddoedd cyn 2003.